Teitl:	**Uwch Swyddog Safonau Masnach**
Lleoliad:	**Ystwyth**
Cyfarwyddiaeth:	**Gwasanaethau Adfywio a Chymunedol**
Rhif y Swydd:	**BG00884**
Cyflog:	**Gradd 9 (£42,403- £46,464 y flwyddyn – Dyfarniad Cyflog 2024 yn yr Arfaeth)**
Oriau:	**37 awr yr wythnos**
Contract:	**Parhaol**

Crynodeb o'r Swydd

Fel uwch aelod o'r Tîm Safonau Masnach, byddwch yn gorfodi'r ystod lawn o swyddogaethau Safonau Masnach gyda rolau arbenigol yn nisgyblaethau Safonau Bwyd a Mesureg a chyfrifoldeb rheoli am y rhaglen arolygu ar gyfer Safonau Bwyd.

Hysbyseb Lawn

Mae gennym gyfle cyffrous i unigolyn profiadol a chryf eu cymhelliant ymuno â'n Tîm Safonau Masnach.

Mae'r swydd hon wedi'i dynodi'n un "ystwyth", gan ddarparu ar gyfer cymysgedd o weithio gartref a gweithio mewn swyddfa.

Rydym yn chwilio am Uwch Swyddog Safonau Masnach hynod broffesiynol ag ymrwymiad i waith Safonau Masnach a brwdfrydedd drosto.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn rhywun sy'n gallu gweithio fel aelod hyblyg, creadigol a chefnogol o dîm a chanddynt sgiliau cyfathrebu rhagorol a dealltwriaeth drylwyr am y dirwedd Safonau Masnach a'r holl ddeddfwriaeth berthnasol.

Byddwch yn rhan o amrywiaeth o waith Safonau Masnach lle bydd gennych rôl allweddol i sicrhau bod ein dyletswyddau statudol a'n blaenoriaethau allweddol yn cael eu cyflawni, yn enwedig mewn perthynas â Safonau Bwyd.

Fel uwch aelod o'r tîm bydd hi'n ofynnol i chi fod yn meddu ar y Diploma mewn Safonau Masnach (neu gymhwyster cyfwerth cydnabyddedig) gan gynnwys Safonau Bwyd a Mesureg, cymhwyster fel Aseswr Arweiniol, a gallu dangos profiad sylweddol ar ôl ennill y

cymhwyster. Mae profiad o Hylendid Bwyd Anifeiliaid yn fanteisiol hefyd a disgwylir ymrwymiad i Ddatblygiad Personol a Phroffesiynol Parhaus yn ogystal â hynny.

Mae proses ailstrwythuro yn yr arfaeth ar gyfer y tîm hwn a allai ddarparu cyfleoedd i gamu ymlaen yn y rôl.

I gael trafodaeth anffurfiol cysylltwch â Steve Osborne, Rheolwr Tîm – Safonau Masnach a Thrwyddedu ar 01495 369542**.**

Cynhelir sgrinio cyn cyflogaeth trylwyr yn ystod y broses recriwtio.

Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg, llenwch Ffurflen Gais Swyddi Cymraeg.

I gael gwybodaeth am ailgyflogaeth ac ail-gyflogi cyn-weithwyr, cyfeiriwch at Bolisi Tâl y Cyngor.

Dyddiad Cau: **Dydd Iau 17 Hydref 2024 – 12:00am, hanner nos**

Dyddiad Cyfweliadau: **Dydd Llun 28 Hydref 2024 i'w gadarnhau**